Caught in Traffick

Adnodd Dysgu

Nodiadau'r Hwylusydd

Caught In Traffick: *Adnodd Dysgu*

Nodiadau'r Hwylusydd

CYNNWYS

1. Caught in Traffick: Golwg gyffredinol | **Tudalen 2**
2. Deall Golygfeydd Allweddol y ffilm mewn perthynas â *Phedwar Cam* Masnachu Pobl | **Tudalen 3**

- Golygfa Allweddol 1: Caffi | Y Cam Targedu | **Tudalen 3**
- Golygfa Allweddol 2: Wrth y Llyn | Y Cam Creu Cyfeillgarwch | **Tudalen 4**
- Golygfa Allweddol 3: Yfed | Y Cam Perthynas Gariadus | **Tudalen 5**
- Golygfa Allweddol 4: Camfanteisio | Y Cam Perthynas Ddifrïol | **Tudalen 6**
- Golygfa dosbarth | **Tudalen 7**

Cysylltiadau | **Tudalen 8**

Cydnabyddiaeth | **Tudalen 9**

Ymwadiad | **Tudalen 9**

Nodiadau | **Tudalen 10**

1. Caught in Traffick: Golwg gyffredinol

Mae Caught in Traffick wedi ei gynllunio i godi ymwybyddiaeth o fasnachu pobl i gynulleidfa eang ac amrywiol. Mae'n cynnwys golygfeydd a dialog syml er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mwy o gyfle i ddysgu a deall y pwnc. Mae'r ffilm yn canolbwyntio ar y gainc dan Caethwasiaeth Fodern sy'n cael ei adnabod fel masnachu mewnol ac mae'n dangos pa mor hawdd yw hi i gamfanteisio ar bobl ifanc sydd wedi cael eu symud ond ychydig filltiroedd o'u cartref, ysgol, man gwaith neu o un ystafell i un arall.

Mae'r *pedwar cam* o fasnachu y mae dioddefwyr yn eu profi yn cael eu disgrifio'n eglur gan Kayla, prif gymeriad y ffilm. Mae'r ffilm yn dangos Kayla'n dysgu am y pwnc masnachu pobl wrth weithio ar waith ysgol yn ei hystafell wely. Mae'r golygfeydd yn yr ystafell wely a throslais Kayla yn ystod y ffilm yn cydredeg gyda golygfeydd ble mae hi'n profi pob un o'r *pedwar cam masnachu*. Mae hyn yn galluogi'r gynulleidfa i adnabod y cyfnodau ochr yn ochr â phrofiadau Kayla. Nid yw Kayla'n gallu gwneud cysylltiad rhwng Masnachu Pobl a'i phrofiadau ei hun am sawl rheswm posib: mae hi'n credu ei bod mewn cariad; mae hi'n ifanc ac agored i niwed; mae hi'n mwynhau'r serch a'r sylw gan Joel, y troseddwr sydd heb ei ddal.

Mae golygfa olaf y ffilm yn dangos desg a chadair wag ble'r oedd Kayla arfer eistedd. Nid oes ateb cywir neu anghywir i'r cwestiwn: Ble mae Kayla? Yn ystod y troslais cyn yr olygfa, mae Kayla'n rhestru canlyniadau posib masnachu pobl ac yn awgrymu nad yw rhai dioddefwyr yn dianc rhag masnachu pobl a bod rhai dioddefwyr yn diflannu o ganlyniad i gael eu lladd neu hyd yn oed hunanladdiad. Dylai cadair wag ysgogi meddyliau am ddiflaniad Kayla a allai gynnwys y posibiliadau hyn a restrir gan Kayla.

Noder y dylai'r ail ferch i dderbyn neges testun gan Joel ysgogi trafodaeth ar gylch parhaus masnachu pobl ac, er gwaethaf diflaniad Kayla, mae'r sawl sydd wedi troseddu yn ei herbyn, Joel, yn dal i gamfanteisio ar ddioddefwyr eraill.

Chwaraewch y DVD o'r dechrau i'r diwedd i ddechrau heb aros i holi cwestiynau. Noder bod peth o'r defnydd yn sensitif a byw ac fe all bryfocio gwahanol ymatebion. Dylai'r hwylusydd ystyried hyn a monitro'r gynulleidfa trwy gydol y ffilm. Awgrymwn eich bod yn gwylio'r DVD gyntaf i asesu a yw'n addas ar gyfer eich cynulleidfa arfaethedig.

Argymhellir y ffilm i blant a phobl ifanc 11-25 oed ac rydym yn awgrymu eich bod yn caniatáu o leiaf 45 munud ar gyfer y sesiwn.

Deilliant Dysgu:

Bydd pobl ifanc yn fwy ymwybodol o Fasnachu Pobl a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Byddant yn gallu adnabod camau allweddol y broses masnachu pobl yn well ac yn gallu ystyried pwysigrwydd eu diogelwch eu hunain a sut i leihau risg.

2. Deall golygfeydd allweddol y ffilm mewn perthynas â *Phedwar Cam* Masnachu Pobl

Gellir adnabod pob un o *bedwar cam* Masnachu Pobl yn ystod pedair golygfa allweddol y ffilm. Mae pob golygfa'n rhoi cyfle i holi cwestiynau ac annog trafodaeth (mae pwyntiau 'Trafodaeth Bellach' yn cael eu cynnwys er mwyn eu hystyried). Cofiwch nad oes atebion cywir neu anghywir.

Chwaraewch y DVD eilwaith gan aros ar bob golygfa ar yr amseroedd a ddangosir isod. Mae sawl 'Cwestiwn Enghreifftiol' ac 'Awgrym' yn cael eu cyflwyno fel arweiniad isod:

Golygfa Allweddol 1: Caffi | Y Cam Targedu (Dechrau **00:22** Gorffen **01:36**)

Cwestiwn Enghreifftiol:
Pam ydych chi'n credu bod Kayla wedi cael ei thargedu?

Awgrym:
Mae hi'n ifanc; mae hi ar ben ei hun; efallai bod y troseddwr wedi bod yn eu gwylio ac yn credu ei bod yn agored i niwed; mae'n ymddangos nad oes ganddi ffrindiau?…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Pwy sy'n targedu Kayla?

Awgrym:

Joel a'r dyn gyda Joel (noder bod yr un dyn yn ymddangos yn yr olygfa olaf ac yn annog Joel i gyfnewid Kayla am arian)

Cwestiwn Enghreifftiol:

Ydych chu'n credu bod Kayla'n gwybod ei bod yn cael ei thargedu?

Awgrym:

Mae'n annhebygol bod Kayla'n ymwybodol ei bod yn cael ei thargedu oherwydd y math o leoliad (caffi); achos bod Joel yn gwrtais a charedig tuag ati hi…

Trafodaeth Bellach: Trafodwch y neges testun mae Kayla'n ei derbyn gan Joel e.e. Sut oedd hyn y gwneud i Kayla deimlo? Sut mae hyn yn rhan o gynllun cyffredinol Joel i gamfanteisio ar Kayla?

Golygfa Allweddol 2: Wrth y Llyn | Y Cam Creu Cyfeillgarwch (Dechrau **01:37** Gorffen **03:10**)

Cwestiwn Enghreifftiol:

Disgrifiwch weithredoedd Joel yn ystod yr olygfa hon.

Awgrym:

Mae Joel yn rhoi colur ar Kayla… trafodwch resymau posib…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Sut mae Kayla'n ymateb i Joel?

Awgrym:

Mae hi'n swil ond yn dangos ei bod yn dechrau ymddiried yn Joel wrth iddi gau ei llygaid ar ei gyfarwyddyd. Mae hi'n falch o'r ffordd y mae hi'n edrych…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y lleoliad ble maen nhw'n cwrdd gyntaf (Caffi) a'r lleoliad ble maen nhw'n cwrdd yr ail waith (y Llyn)?

Awgrym:

Mae'r llyn yn fwy unig ac maen nhw ar ben eu hunain…

Trafodaeth Bellach: Trafodwch weithredoedd Joel yn fwy manwl. Ymchwiliwch y posibilrwydd ei fod yn dechrau trawsnewid sut mae Kayla'n edrych, o bosib i greu cynnyrch haws ei werthu i gleientiaid yn y dyfodol a hefyd i ddatblygu ei hunan hyder hi.

Golygfa Allweddol 3: Yfed | Y Cam Perthynas Gariadus (Dechrau **03:11** Gorffen **04:30**)

Cwestiwn Enghreifftiol:
Esboniwch y gwahaniaeth yn sut mae Kayla'n edrych ers dechrau'r ffilm?

Awgrym:
Gwallt, colur a dillad Kayla wedi newid ac mae hi'n fwy hyderus…

Cwestiwn Enghreifftiol:
Ydych chi'n credu bod Kayla'n ddiogel?

Awgrym:
Na. Mae hi dan ddylanwad alcohol; efallai nad yw hi'n adnabod ei hamgylchedd a'r bobl sydd o'i chwmpas…

Cwestiwn Enghreifftiol:
Beth allai Kayla ei wneud i fod yn fwy diogel?

Awgrym:
Osgoi yfed alcohol… dweud wrth ffrind ble'r oedd hi'n mynd… mynd â ffrind gyda hi… mynd â ffôn symudol wedi ei wefru'n llawn gyda hi…

Trafodaeth Bellach: Mae'r jochiau alcoholic yn symbolaidd o oleuadau traffig. Mae'r *Coch* yn awgrymu gwrthwynebiad ac ansicrwydd; yr *Oren* yn awgrymu ei bod yn ymylu ar ufuddhau a'r *Gwyrdd* yn dynodi bod ei hataliad yn pylu a bod Joel wedi paratoi'n llwyddiannus ar gyfer ei bedwerydd cam.

Golygfa Allweddol 4: Camfanteisio | Y Cam Perthynas Ddifrïol (Dechrau **04:32** Gorffen **05:55**)

Cwestiwn Enghreifftiol:

Beth yw cyflwr meddwl Kayla?

Awgrym:

Mae Kayla dan ddylanwad alcohol ac nid oes ganddi reolaeth bellach… Mae hi'n credu ei bod hi mewn cariad â Joel…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Beth sy'n digwydd y tu ôl i Kayla ar y llawr dawnsio?

Awgrym:

Mae Joel yn cael cyfarwyddyd i fynd â Kayla at gleientiaid sy'n aros. Noder mai'r dyn sy'n rhoi cyfarwyddiadau i Joel yw'r dyn a oedd gydag ef yn y Caffi yn ystod y cam targedu (Golygfa Allweddol 1)…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Disgrifiwch beth sy'n digwydd i Kayla wrth iddi gael ei llusgo gan Joel?

Awgrym:

Mae Kayla yn cael ei chymryd at gleientiaid sy'n aros. Mae'r cleientiaid yn rhoi arian i Joel am Kayla sy'n cael ei defnyddio ar gyfer rhyw…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Pryd ydych chi'n credu y mae'r berthynas yn mynd yn beryglus?

Awgrym:

Mae'r holl berthynas yn beryglus achos mae Kayla'n cael ei thargedu ac yn ddioddefwr o'r dechrau. Fe *all* enghreifftiau manwl gynnwys;

Pan mae hi'n cyfnewid rhifau ffôn gyda Joel, dieithryn… pan mae hi'n cwrdd â Joel mewn lleoliad unig… pan mae hi'n cael ei hannog i yfed alcohol… colli rheolaeth dan ddylanwad alcohol… pan fydd Joel yn ei gorfodi i fynd allan o'r clwb…

Trafodaeth Bellach: Trafodwch y posibilrwydd bod Joel hefyd yn ddioddefwr yn y broses masnachu pobl. Er ei bod yn hanfodol i adnabod Joel fel y troseddwr ar y dechrau, trafodwch unrhyw bwysau y mae wedi eu dioddef yn ystod y broses masnachu hon.

Golygfa Dosbarth: Cyfeirir at Golwg Gyffredinol (Dechrau **05:56** Gorffen **07:15**)

Cwestiwn Enghreifftiol:

Ble mae Kayla?

Awgrym:

Dylai'r gadair wag ysgogi meddyliau ynghylch diflaniad Kayla a allai gynnwys y posibiliadau hynny a restrir yn yr olygfa. H.y. nid yw rhai dioddefwyr yn dianc rhag masnachu ac mae rhai dioddefwyr yn diflannu o ganlyniad i gael eu lladd neu hyd yn oed hunanladdiad…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Beth yw arwyddocâd y ferch ysgol arall yn derbyn neges testun?

Awgrym:

Mae'r ferch ysgol yn derbyn yr un neges testun a dderbyniodd Kayla. Mae hyn yn awgrymu cylch parhaus o fasnachu ac, er gwaethaf diflaniad Kayla, mae'r troseddwr Joel yn parhau i gamfanteisio ar ddioddefwyr eraill.

Cyn cloi'r sesiwn dylid gwneud y gynulleidfa'n ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael i helpu dioddefwyr fel Kayla. Isod gweler rhestr o wasanaethau a sefydliadau ynghyd â manylion cysylltu.

Trafodaeth Bellach:

Cwestiynau Enghreifftiol:

1. Beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech yn cael eich hun yn yr un sefyllfa â Kayla?
2. Beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech yn credu bod rhywun yn ddioddefwr masnachu pobl neu ffurf arall ar Gaethwasiaeth Fodern?
3. Ydych chi'n gwybod sut a ble i hysbysu am achosion o gamfanteisio'n rhywiol neu fasnachu pobl?
4. Beth fyddech chi'n ei wneud i leihau'r perygl i chi neu eraill?

Cysylltiadau

Os ydych yn amau bod rhywun yn cael eu paratoi at ddibenion rhywiol neu'n ddioddefwr unrhyw fath o Gaethwasiaeth Fodern cysylltwch ag un neu fwy o'r gwasanaethau canlynol:

- Heddlu (Gwasanaethau Argyfwng) | **999**
- Heddlu (galwadau sydd ddim yn argyfwng) | **101**
- BAWSO - Llinell Gymorth 24 awr | **08007318147**
- New Pathways (Argyfwng) | **07423 437 020**
- New Pathways - Gwasanaethau Cymorth Argyfwng Treisio a Cham-drin Rhywiol | **01685379310**
- Barnardos | **02920 493387**
- Broken Rainbow - Llinell Gymorth Genedlaethol Trais Domestig Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol | **03009995428**
- Childline (Llinell Gymorth 24 awr) | **08001111 www.child-line.org.uk**
- Hawliau Plant Comisiynydd Plant Cymru | **www.childcom.org.uk**
- Crime Stoppers | **0800 555 111**
- Drinkline | **08009178282 www.patient.co.uk**
- Cymorth Cyffuriau ac Alcohol (Dan 24/7) | **08088082234** Neges testun: DAN at **2234 www.dan247.org.uk**
- Cymdeithas Cynllunio Teulu – Llinell Gymorth Iechyd Rhywiol | **0845 122 8690 www.fpa.org.uk**
- Meic (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gyfer eich bywyd) | **08088023456** Testun: **84001 www.meiccymru.org**
- Llinell Gymorth Ar Goll neu Ar Ffo | **116000**
- Galw Iechyd Cymru | **08454647 www.nhsdirect.wales.nhs.uk**
- NSPCC (Gwybodaeth) | **08088005000** email: **help@nspcc.org.uk**
- Samariaid | **08457909090 www.samaritans.org**
- Llinell Gymorth Genedlaethol 24 awr Trais Domestig | **0808 2000 247**

Rhaid i chi hefyd hysbysu Timoedd Gweithwyr Cymdeithasol ar Ddyletswydd Gwasanaethau Plant eich Awdurdod Lleol am unrhyw bryderon

Mae copïau pellach o'r pecyn adnoddau hwn, yn cynnwys y ffilm, ar gael i'w lawr lwytho oddi ar y gwefannau canlynol:

Merthyr Tudful Mwy Diogel | **www.smt.org.uk**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | **www.merthyrtydfilcbc.gov.uk**
Gwasanaeth Erlyn y Goron | **www.cps.gov.uk**

Cydnabyddiaeth

FFORWM IEUENCTID BWRDEISTREF EANG MERTHYR TUDFUL

Ymwadiad

Mae pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod pob rhan o'r adnodd dysgu hwn yn gywir ochr yn ochr â gwaith a chanfyddiadau cysylltiedig yn y maes hwn. Ymddiheurwn am unrhyw rannau sy'n gwyro oddi wrth brofiadau personol neu arferion amgen yr ydym wedi methu â'u cynnwys.

Noder, gellir defnyddio Caethwasiaeth Fodern i ddisgrifio sawl ffurf ar gaethwasiaeth yn cynnwys masnachu pobl i'w gorfodi i weithio; masnachu pobl i gamfanteisio'n rhywiol arnynt; masnachu pobl (yn cynnwys masnachu mewnol) a ffurfiau eraill ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r holl droseddau hyn yn effeithio ar oedolion yn ogystal â phlant a phobl ifanc.

Trefnwyd yr adnodd hwn gan Bobl Ifanc Merthyr Tudful a chafodd ei lywio gan bartneriaid cymunedol yn ôl eu dealltwriaeth a'u profiadau proffesiynol o'r pwnc hwn.

Ystyrir bod yr holl wybodaeth yn berthnasol ar adeg dylunio a dosbarthu yn Hydref 2014.

Nodiadau

Caught in Traffick

Adnodd Dysgu

Facilitators Notes

Facilitators Notes

CONTENT

3. Caught in Traffick: Overview | **Page 2**
4. Understanding Golygfa Allweddols of the Film in relation to the *Four Stages* of Human Trafficking | **Page 3**

- Golygfa Allweddol 1: Coffee Shop | Targeting Stage | **Page 3**
- Golygfa Allweddol 2: At the Lake | Friendship Forming Stage | **Page 4**
- Golygfa Allweddol 3: Drinking | Loving Relationships Stage | **Page 5**
- Golygfa Allweddol 4: Exploitation | Abusive Relationships Stage | **Page 6**
- Classroom Scene | **Page 7**

Contacts | **Page 8**

Acknowledgements | **Page 9**

Disclaimer | **Page 9**

Notes | **Page 10**

3. Caught in Traffick: Overview

Caught in Traffick is designed to raise awareness of human trafficking to a wide and varied audience. It contains simple scenes and straightforward dialogue to ensure that Children & Young People have a greater opportunity to learn and understand the subject. The film focuses on the sub-strand under Modern Slavery known as internal trafficking and illustrates how young people are easily exploited having been moved no further than a few miles from their home, school, place of work or simply from one room to another.

The *four* stages of trafficking experienced by victims are clearly described by Kayla the main character in the film. The film shows Kayla learning about the subject of human trafficking whilst working on a school assignment from her bedroom. The Bedroom scenes and Kayla's voice over during the film run alongside scenes where she is subjected to each of the *four trafficking stages*. This enables the audience to identify the stages against lived experiences by Kayla. Kayla is unable to make the connection between Human Trafficking and her experiences for several possible reasons: She believes she's in love; she is young and vulnerable; she is enjoying the affection and attention shown to her by Joel her undetected perpetrator.

The final scene of the film features an empty desk and chair that Kayla once occupied. There is no right or wrong answer to the question such as: Where is Kayla? During the voice-over that precedes the scene, Kayla lists possible consequences of trafficking and suggests that some victims do not escape trafficking and some victims disappear as a result of murder of even suicide. The empty chair should provoke such thoughts as to the disappearance of Kayla which might include those possibilities listed by Kayla.

Note that the second school girl to receive a text message from Joel should provoke discussion on the continued cycle of trafficking and that despite Kayla's disappearance, her perpetrator Joel continues to exploit further victims.

First play the DVD from start to finish without stopping to ask questions. Please note some content is sensitive and graphic and may provoke different reactions. The facilitator should be mindful of this and monitor the audience throughout the film. We recommend that you view the DVD first to test the suitability for your planned audience.

The film is recommended for ages 11-25 and we suggest you allocate a minimum of 45 minutes to the session.

Learning Outcome:

Young People will be more aware of Human Trafficking and Child Sexual Exploitation. They will be better equipped to identify key stages of the trafficking process and to consider the importance of their own safety and how to minimise risk.

4. Understanding Golygfa Allweddols of the Film in relation to the *Four Stages* of Human Trafficking

Each of the *four stages* of Human Trafficking can be identified during four Golygfa Allweddols of the film. Each scene presents opportunities to ask questions and encourage discussion ('Trafodaeth Bellach' points are included for consideration). Remember there are no right or wrong answers.

Play the DVD a second time stopping for each scene at times indicated below. Several ' Cwestiwn Enghreifftiols' and 'Awgryms' are presented below to guide you:

Golygfa Allweddol 1: Coffee Shop | Targeting Stage (Start **00:22** End **01:36**)

Cwestiwn Enghreifftiol:
Why do you think Kayla was targeted?

Awgrym:
She is Young; she is alone; perhaps the perpetrator had watched her and believes she is vulnerable; she appears to have no friends?…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Who targets Kayla?

Awgrym:

Joel and the man with Joel (notice the same man appears in the end scene and encourages Joel to exchange Kayla for money)

Cwestiwn Enghreifftiol:

Do you think Kayla knew she was being targeted?

Awgrym:

It's unlikely that Kayla was aware she was being targeted because of the type of location where they met (coffee shop); because Joel was polite and kind to her…

Trafodaeth Bellach: Discuss the text message that Kayla Receives from Joel e.g. How did this make Kayla feel? How does this feature in Joel's overall plan to exploit Kayla?

Golygfa Allweddol 2: At the Lake | Friendship Forming Stage (Start **01:37** End **03:10**)

Cwestiwn Enghreifftiol:

Describe Joel's actions during this scene.

Awgrym:

Joel applies make up to Kayla…discuss possible reasons…

Cwestiwn Enghreifftiol:

How does Kayla react to Joel?

Awgrym:

She is shy but shows that she is beginning to trust Joel as she closes her eyes upon his instruction. She is pleased with her new appearance…

Cwestiwn Enghreifftiol:

What is the difference between the locations of their first meeting (Coffee Shop) and their second meeting (The Lake)?

Awgrym:

The Lake is more secluded and they are alone…

Trafodaeth Bellach: Discuss Joel's actions in further detail. Explore the possibility that he is beginning to transform Kayla's appears perhaps to create a more sellable product for future clients and also to increase her self-confidence.

Golygfa Allweddol 3: Drinking | Loving Relationships Stage (Start **03:11** End **04:30**)

Cwestiwn Enghreifftiol:

Explain the differences to Kayla's appearance from the start of the film?

Awgrym:

A change to Kayla's hair, makeup and clothes and her confidence has increased…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Do you think Kayla is safe?

Awgrym:

No. She is under the influence of alcohol; she is perhaps unfamiliar with her whereabouts and the people that surround her…

Cwestiwn Enghreifftiol:

What could Kayla do to improve her safety?

Awgrym:

Avoid drinking alcohol…tell a friend where she was going…take a friend…take a fully charged mobile phone…

Trafodaeth Bellach: The alcoholic shots are symbolic of traffic lights. The *Red* shot suggests resistance and uncertainty; the *Amber* shot suggests that she is bordering on submissive and the *Green* shot indicates that her inhibitions have been lowered and that Joel has successfully prepared to move into his fourth stage.

Golygfa Allweddol 4: Exploitation | Abusive Relationships Stage (Start **04:32** End **05:55**)

Cwestiwn Enghreifftiol:

What is Kayla's state of mind?

Awgrym:

Kayla is under the influence of alcohol and is no longer in control… She believes she is in love with Joel…

Cwestiwn Enghreifftiol:

What is going on behind Kayla on the dance floor?

Awgrym:

Joel is being instructed to take Kayla to waiting clients. Note the man instructing Joel is the man who accompanied him to the Coffee Shop during the targeting stage (Golygfa Allweddol 1)…

Cwestiwn Enghreifftiol:

Describe what is happening to Kayla as she is dragged by Joel?

Awgrym:

Kayla is being taken to waiting clients. The clients hand money to Joel in exchange for Kayla who is used for sex…

Cwestiwn Enghreifftiol:

When do you think the relationship becomes dangerous?

Awgrym:

The entire relationship is dangerous because Kayla is targeted and is a victim from the outset. Detailed examples *may* include;

When exchanging numbers with Joel, a stranger… when meeting Joel at a secluded location… when encouraged to drink alcohol… losing control when under the influence of alcohol… when forced outside of the club by Joel…

Trafodaeth Bellach: Discuss the possibility that Joel is also a victim in this process of trafficking. While it is essential in the first instance that Joel is identified as the perpetrator, discuss any pressures he has experienced through this trafficking process.

Classroom Scene: Refer to Overview (Start **05:56** End **07:15**)

Cwestiwn Enghreifftiol:

Where is Kayla?

Awgrym:

The empty chair should provoke such thoughts as to the disappearance of Kayla which might include those possibilities listed in the scene. I.e. some victims do not escape trafficking and some victims disappear as a result of murder of even suicide…

Cwestiwn Enghreifftiol:

What is the significance of the other school girl receiving a text message?

Awgrym:

The school girl receives the same text message as that received previously by Kayla. This suggests a continued cycle of trafficking and that despite Kayla's disappearance, her perpetrator Joel continues to exploit further victims.

Before closing the session the audience should be made aware of services available to assist victims such as Kayla. A list of services and organisations are listed below with ways that these can be contacted.

Trafodaeth Bellach:

Cwestiwn Enghreifftiols:

5. What would you do if you found yourself in the same position as Kayla?
6. What would you do if you believed somebody to be a victim of trafficking or another form of Modern Slavery?
7. Do you know how and where to report cases of sexual exploitation or trafficking?
8. What would you do to minimise risk to you or others?

Contacts

If you suspect that someone is being groomed for sexual purposes or is the victim of any form of Modern Slavery please contact one or more of the following services:

- Police (Emergency Services) | **999**
- Police (non-urgent calls) | **101**
- BAWSO 24hr helpline | **08007318147**
- New Pathways (Emergency) | **07423 437 020**
- New Pathways Rape Crisis & Sexual Abuse Support Services | **01685379310**
- Barnardos | **02920 493387**
- Broken Rainbow National LGBT Domestic Violence Helpline | **03009995428**
- Childline (24hr Helpline) | **08001111 www.child-line.org.uk**
- Children's Rights Children's Commissioner for Wales | **www.childcom.org.uk**
- Crime Stoppers | **0800 555 111**
- Drinkline | **08009178282 www.patient.co.uk**
- Drug & Alcohol Support (Dan 24/7) | **08088082234** Text: DAN to **2234 www.dan247.org.uk**
- FPA Sexual Health Helpline | **0845 122 8690 www.fpa.org.uk**
- Meic (Information, Advice & Support for your life) | **08088023456** Text: **84001 www.meiccymru.org**
- Missing or Runaway Helpline | **116000**
- NHS Direct Wales | **08454647 www.nhsdirect.wales.nhs.uk**
- NSPCC (Information) | **08088005000** email: **help@nspcc.org.uk**
- Samaritans | **08457909090 www.samaritans.org**
- 24hr National Domestic Violence | **0808 2000 247**

You must also report any concerns to your Local Authority Children's Services Duty Social Work Teams

Further copies of this resource pack including the film are available to download from the following websites:

Safer Merthyr Tydfil | **www.smt.org.uk**
Merthyr Tydfil County Borough Council | **www.merthyrtydfilcbc.gov.uk**

Acknowledgements

MERTHYR TYDFIL BOROUGH WIDE YOUTH FORUM

Disclaimer

Every effort has been made to ensure that all parts of this learning resource is correct and accurate alongside associated work and findings in this area. We apologise for any parts that deviate from personal experiences or alternative practices which we fail to include.

Please note, Modern Slavery can be used to describe many forms of slavery including labour trafficking; sex trafficking; human trafficking (including internal trafficking) and other forms of child sexual exploitation. All of these crimes affect adults as well as Children & Young People.

This resource was formulated by the Young People of Merthyr Tydfil and steered by Community partners according to their understanding and professional experiences of this subject.

All information is perceived as relevant at time of design and distribution that is October 2014.

Notes

.....

.....